## GWYBODAETH HANFODOL

# Illyria : ALI BABA AND THE FORTY THIEVES!

Cynhelir y digwyddiad yng Nghastell Aberteifi

Hyrwyddiad ar y cyd gan Theatr Mwldan / Castell Aberteifi

Nos Wener 23 Awst, 2019

Diolch am brynu tocynnau ar gyfer y digwyddiad hwn. Rydym wedi cynnwys ychydig wybodaeth hanfodol i geisio sicrhau bod yr achlysur yn rhedeg yn hwylus. Byddwch cystal â darllen trwy'r pwyntiau isod, ac os oes gennych unrhyw gwestiynau yna cysylltwch â Swyddfa Docynnau Theatr Mwldan ar 01239621200 neu e-bostiwch boxoffice@mwldan.co.uk a gwnawn ein gorau i geisio esbonio pethau i chi.

Theatr Mwldan yw'r unig werthwr tocynnau ar gyfer y digwyddiadau hyn. Gallwch hefyd brynu eich tocynnau ar-lein ar www.mwldan.co.uk neu drwy Ap y Mwldan i IOS ac Android.

Sgroliwch i lawr i weld map o safle'r Castell.

CYFEIRIAD

Castell Aberteifi, Stryd Werdd, Aberteifi, SA43 1JA

## Y DIGWYDDIAD

Digwyddiad awyr agored yw hwn. Awgrymwn fod cwsmeriaid yn gwisgo esgidiau addas ac yn dod â siaced / dilledyn cynnes gan ei bod yn oeri gyda'r hwyr a chynhelir y perfformiad beth bynnag y tywydd.

## TREFN DIGWYDDIADAU

- Bydd Drysau/Gatiau yn agor am 5.00yh
- Bydd Ali Baba and the Forty Thieves yn cychwyn tua 6.00yh.
- Amser rhedeg tua 1 awr a 40 muned gan gynnwys egwyl 20 munud.

## CYFARWYDDYD ADDASRWYDD OED

Cyfarwyddyd oed: 5+. Y rhieni biau'r gair olaf am hyn.

## PRIS

£14, £12 (consesiynau), £10 (plant). Mae'n bosibl bydd tocynnau ar gael wrth y drws (araina parod yn unig), ond mae hyn yn hollol ddibynnol ar argaeledd. Argymhellwn archebu tocynnau i osgoi cael eich siomi.

## PARCIO

- Noder, NID OES UNRHYW BARCIO AR SAFLE Castell Aberteifi, a chynghorwn ein cwsmeriaid i ddefnyddio'r meysydd parcio talu ac arddangos cyhoeddus (yn ddi-dâl wedi 6yh) sydd o gwmpas y dref.

## GWYBODAETH I'N CWSMERIAID ANABL

- Mae mynediad cadair olwyn i'r safle perfformio. Nid oes unrhyw barcio cyhoeddus ar y safle.
- Os oes gennych unrhyw ofynion mynediad, rhowch wybod i ni o flaen llaw ar 01239 621 200 / boxoffice@mwldan.co.uk - fel y gallwn wneud ein gorau i ddarparu ar eich cyfer.

## SEDDAU

- Ni ddarperir seddau yn y digwyddiad hwn. Dewch â charthenni picnic a/neu gadeiriau cefn isel.

TOCYNNAU A MYNEDIAD I'R SAFLE

Bydd mynediad i ddeiliaid tocynnau drwy brif fynedfa'r castell fel y nodir ar y map.

- Dewch â'ch tocyn copi caled o Theatr Mwldan gyda chi, neu allbrint o'ch tocynnau os ydych wedi archebu ar-lein. Gallwch hefyd ddangos eich archeb ar eich ffôn symudol yn gyfnewid am eich band(iau) arddwrn.
- DIM TOCYN, DIM MYNEDIAD. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am ddull adnabod i wirio mai chi yw'r archebwr, neu os bydd angen i chi egluro cymhwysedd am bris gostyngol (lle bo'n berthnasol).
- Ni fyddwn yn gallu ailargraffu tocynnau os cânt eu colli neu eu camleoli. Cysylltwch â swyddfa docynnau Theatr Mwldan os na fedrwch argraffu eich tocyn eich hun a gallwn ei argraffu ar eich rhan.

BWYD A DIOD

- Croeso i chi ddod â phicnic i ddigwyddiadau Illyria (ond nid alcohol)
- Yn ogystal bydd bar a bwyd ar gael ar y safle, yn gwerthu:
  - Diodydd Poeth, Diodydd Meddal ac Alcohol
  - Hufen Iâ / Losin
  - Popgorn melys
  - Nachos gyda chaws, jalapenos a dip
  - Bydd bwyty'r Castell, 1176, hefyd ar agor ar gyfer y digwyddiad hwn

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'r fwydlen, cysylltwch â Chastell Aberteifi 01239 615131 / info@cardigancastle.com

CŴN AR Y SAFLE

- Ni chaniateir cŵn ar y safle gan eithrio cŵn tywys.

GWIRIADAU BAG

- Er diogelwch ein cwsmeriaid, cynhelir gwiriadau bagiau wrth y drws.

YSTAFELL GOTIAU

- Nid oes ystafell gotiau ar gael ar y safle.

SMYGU

- Ni chaniateir smygu a mewnanadlu anwedd ar safle’r castell. Mae safle smygu a mewnanadlu dynodedig ar gael yn gyfagos i’r pafiliwn.

Cofion

Stephanie Maraggiulo
Rheolwr Gweithrediadau

MAP CASTELL ABERTEIFI

